

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a Gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023
------------------------	---

Mae'r rhain yn gofnodion heb eu cadarnhau o'r cyfarfod.
Sylwch fod y rhain yn amodol ar gael eu cadarnhau gan y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion Heb eu Cadarnhau o
Gyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
15 Chwefror 2023 10:00
a Gynhaliwyd yn 2 Capital Quarter a thros Microsoft Teams**

Yn Bresennol:		
Kate Eden	(KE)	Cadeirydd y Pwyllgor, Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Chyfleusterau Digidol)
Hefyd yn Bresennol:		
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Liz Blayney	(LB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd Dros Dro
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Angela Cook	(AC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio, Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Robin Howe	(RH)	Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Microbioleg (Ar gyfer eitem 4.3.1)
Wayne Jepson	(WP)	Arweinydd Rhaglen / Cynghorydd Gwella (gadawodd am 11:33)
Andrew Jones	(AJ)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Y Tîm Gweithredol
Angela Jones	(AJo)	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd a Llesiant
Chris Orr	(CO)	Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch/Rheolwr Cyffredinol Gweithrediadau a Chyllid (Ar gyfer Eitem 4.7)
Reanne Reffell	(RR)	Rheolwr Llywodraethu Dros Dro y Bwrdd

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a Gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023
------------------------	---

Mae'r rhain yn gofnodion heb eu cadarnhau o'r cyfarfod.

Sylwch fod y rhain yn amodol ar gael eu cadarnhau gan y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig, Ansawdd, Diogelwch, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Christopher Thomas	(CT)	Rheolwr Llywodraethu a Rheolwr Cyffredinol
Francesca Thomas	(FT)	Pennaeth Gweithio i Wella (Ar gyfer Eitem 4.4)
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd y Bwrdd (Ymunodd am 11:05)
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd Undeb Llafur (Gadawodd y cyfarfod am 12:00)
Ymddiheuriadau		
Tracey Cooper	(TC)	Prif Swyddog Gweithredol
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Olusola Okhiria	(OO)	Cynrychiolydd Undeb Llafur
Ysgrifenyddiaeth		
Andrew Morton	(AM)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
<i>Dechreuodd y cyfarfod am 10:00</i>		
QSIC 15/02/2023/1	Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	
Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chrosawu pawb a oedd yn bresennol.		
Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.		
Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol.		
QSIC 15/02/2023/2	Datgan Buddiannau	
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.		
QSIC 15/02/2023/3	Sesiwn Graffu Fanwl: Gwella Iechyd	
Rhoddodd AJo gyflwyniad i'r Pwyllgor yn crynhoi gwaith y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant:		
<ul style="list-style-type: none">Cyflwynodd fodel Dahlgren a Whitehead a oedd yn egluro Penderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant a nododd sut yr oedd hyn yn effeithio ar unigolion, a dangosodd agweddau ar iechyd y byddai'r		

Dyddiad: 15 Chwefror 2023	Fersiwn: Drafft	Tudalen: 2
----------------------------------	------------------------	-------------------

Mae'r rhain yn gofnodion heb eu cadarnhau o'r cyfarfod.

Sylwch fod y rhain yn amodol ar gael eu cadarnhau gan y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

Sefydliad yn canolbwyntio arnynt fel rhan o'r gwasanaethau yr oedd yn eu darparu;

- Aeth ymlaen i roi trosolwg o'r rhaglenni a ddarperir o dan y tair is-adran o fewn y gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant: Penderfynyddion Ehangach Iechyd; Gofal Sylfaenol; a Gwella Iechyd, gan nodi bod rhaglenni a gafodd eu gohirio yn ystod y pandemig Covid-19 yn ailddechrau'r raddol.
- Rhoddodd hefyd drosolwg o ffrydiau Gwaith Allweddol, a oedd yn cynnwys:
 - Dylanwadu ar sut y gallai gwaith ac addysg wella iechyd a thegwch;
 - Cryfhau system iechyd y cyhoedd i ddylanwadu ar benderfynyddion iechyd ehangach;
 - Trawsnewid rhaglenni gofal sylfaenol a chymunedol, darparu rhaglen strategol, sefydlu model Gofal Sylfaenol i Gymru a datblygu Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru;
 - Rhoi cyngor a chymorth i sefydliadau allweddol; i bwyllgorau a grwpiau strategol cenedlaethol; gofal sylfaenol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a data; arweinyddiaeth system; canllawiau Unwaith i Gymru; a datblygu'r gweithlu gofal sylfaenol.
 - Daeth AJo â'r cyflwyniad i ben drwy amlygu dwy risg bosibl sy'n cydfynd â'r Strategaeth Hirdymor, a oedd yn ymwneud â'r methiant posibl i wella iechyd yn effeithiol a'r methiant posibl i gefnogi ffocws y GIG ar atal salwch ac ymyrraeth gynnar gan arwain at anghydraddoldebau pellach.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Rhyng-gysylltedd y prosiectau a sut y gwnaethant gyfathrebu â'i gilydd. Esboniodd AJo, wrth ailgychwyn y rhaglenni, bod adolygiadau wedi'u cynnal a oedd wedi nodi meysydd lle y byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu i garfannau i sicrhau bod y system yn gweithio'n llawn, megis y dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant meddyliol ac emosiynol;
- Datblygu Swyddogaeth Iechyd Cyhoeddus mewn gofal iechyd;
- Yr effaith hirdymor ar raglenni oherwydd y pandemig Covid-19. Dywedodd AJo ei bod yn rhy gynnar i wybod pa effaith yr oedd atal rhaglenni dros dro wedi'i chael ar y boblogaeth er ei bod yn debygol y byddai hynny wedi cael effaith;
- Dull yn seiliedig ar systemau o ymdrin â rhaglenni atal – gan gynnwys mesur, effaith a chanlyniadau, gan nodi'r ffocws traws-bwyllgor gyda'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd mewn perthynas â data.
- Gwaith Traws-Bwyllgor ar ddata'r gweithlu gyda'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl;
- Cysondeb o ran casglu a chyhoeddi data. Roedd AJo yn gweithio gydag IB i ddatblygu proses symlach er mwyn gallu dadansoddiad data'n gyflymach i hwyluso gwelliannau ar draws y rhaglenni;

Mae'r rhain yn gofnodion heb eu cadarnhau o'r cyfarfod.

Sylwch fod y rhain yn amodol ar gael eu cadarnhau gan y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

- Ystyriodd y Pwyllgor y posibilrwydd o gynnal sesiynau craffu manwl yn y dyfodol ar wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol fel Cymru Iach ar Waith, Helpa Fi i Stopio, Byw Bywyd.
- Pwysleisiodd aelodau'r Pwyllgor yr angen i ystyried datblygu / nodi dulliau mesur canlyniadau ac effaith y rhaglenni ar iechyd y boblogaeth wrth ystyried y sesiynau craffu manwl hyn;
- Effaith trosglwyddo Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol o'r Sefydliad. Credwyd bod y perthnasoedd unigol yn gweithio'n dda oherwydd y memoranda cyd-ddealltwriaeth sydd ar waith ond roedd datblygu systemau yn dal i fod yn waith ar y gweill.

Diolchodd y Pwyllgor i AJo am y cyflwyniad cynhwysfawr, ac i'w thîm am ddatblygu'r rhaglenni.

QSIC 15/02/2023/4	Eitemau er Sicrwydd
QSIC 15/02/2023/4.1	Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) Cymru
QSIC 15/02/2023/4.1.1	Dyletswydd Ansawdd / Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol

Rhoddodd JB y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynlluniau'r Sefydliad i weithredu'r Ddeddf Dyletswydd Ansawdd, a oedd i fod i ddod i rym ar 1 Ebrill 2023. Tynnodd JB sylw at:

- Bwysigrwydd Arweinyddiaeth a Diwylliant, a gwnaeth sylwadau ar ymgysylltu ag Uned Fusnes y Bwrdd a'r Tîm Llywodraethu Integredig ynghylch yr effaith bosibl ar benderfyniadau ar draws y Sefydliad;
- Gofynion adrodd, gan gynnwys adroddiad blynyddol a fyddai'n cynnwys elfennau gan Gyfarwyddiaethau unigol. Byddai Safonau Ansawdd yn cael eu disodli gan safonau esblygol newydd ar 1 Ebrill 2023 a byddent yn cael eu datblygu a'u gweithredu'n llawn o fewn 18 mis;
- Cyflwyno hyfforddiant ac addysg, gan gynnwys modiwl e-ddysgu;
- Datblygu a gweithredu'r System Rheoli Ansawdd. Mae'r hyb Gwella ar waith ac yn gweithio ar brosiectau gan gynnwys Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru ac achosion o dor diogelwch data;
- Nodwyd nifer o heriau, gan gynnwys y ffaith nad oedd canllawiau terfynol ar gael, a chyfatebiaeth y canllawiau â Sefydliadau Comisiynu a Lletya.

Trafododd y Pwyllgor y diweddariad a chafodd **sicrwydd** ynghylch y cynnydd o ran gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, fodd bynnag **nododd** y Pwyllgor bryder mawr ynghylch pa mor barod oedd y system ar gyfer Ebrill 2023 oherwydd yr oedi cyn cyhoeddi'r canllawiau terfynol, a gallu'r Sefydliad wedi hynny i ddechrau ar gyfnod gweithredu er mwyn cyflawni'r ddyletswydd gyfreithiol.

Mae'r rhain yn gofnodion heb eu cadarnhau o'r cyfarfod.
Sylwch fod y rhain yn amodol ar gael eu cadarnhau gan y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

<p>Gofynnodd y Pwyllgor am adolygiad llawn a diweddariad ar weithrediad y Ddyletswydd Ansawdd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Mai, ac mewn cyfarfodydd dilynol o'r Pwyllgor i sicrhau bod y Sefydliad yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.</p> <p>Camau Gweithredu: JB</p>	
QSIC 15/02/2023/4.1.2	Diweddariad ar y Ddyletswydd Gonestrwydd
<p>Rhoddodd AC ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd o ran gweithredu'r Ddeddf Dyletswydd Gonestrwydd a fyddai'n dod i rym ar 1 Ebrill 2023, gan nodi bod y Ddeddf yn cysylltu'n uniongyrchol â Risg 207 ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol (sef y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn methu â bodloni gofynion y Ddeddf).</p> <p>Tynnodd AC sylw at:</p> <ul style="list-style-type: none">Ddulliau cyfathrebu y bwriedir eu defnyddio (gan gynnwys llythyrau, fideos addysgol, modiwlau hyfforddi a gweithdai) i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf newydd ymhlith staff a'r cyhoedd;Newidiadau i ofynion hyfforddi, DATIX, mecanweithiau Adrodd a Llywodraethu Mewnol (eu hymgorffori o fewn mecanweithiau presennol Gweithio i Wella, hysbysu'r adran archwilio mewnol ac Adrodd ar Wella Ansawdd), a'r gofyniad i lunio Adroddiad Blynyddol;Risgiau a phryderon ynghylch gwybodaeth a sgiliau, capasiti ac adnoddau. <p>Gofynnodd y Pwyllgor i fodiwlau hyfforddi pwrpasol fod ar gael i'r Aelodau Anweithredol.</p> <p>Camau Gweithredu: AC/LB</p> <p>Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar ddarn o waith modelu posibl i ddeall yr effaith ar raglenni yn dilyn gweithredu'r Ddeddf.</p> <p>Dywedodd AC wrth y Pwyllgor fod gwaith wedi dechrau'n ddiweddar ar gyfrifiad yn seiliedig ar ddata'r 12 mis blaenorol er mwyn pennu'r effaith debygol.</p> <p>Dywedodd RBW wrth y Pwyllgor fod y Sefydliad yn cysylltu â'r corff sy'n olynu'r Cynghorau Iechyd Cymuned, sef Corff Llais y Dinesydd o'r enw Llais.</p> <p>Gofynnodd y Pwyllgor am adolygiad llawn a diweddariad ar weithrediad y Ddyletswydd Gonestrwydd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Mai, ac mewn cyfarfodydd dilynol o'r Pwyllgor i sicrhau bod y Sefydliad yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.</p> <p>Camau Gweithredu: RBW</p>	
QSIC 15/02/2023/4.2	Egwyl
QSIC 15/02/2023/4.3	Rheoli Risgiau

Mae'r rhain yn gofnodion heb eu cadarnhau o'r cyfarfod.
Sylwch fod y rhain yn amodol ar gael eu cadarnhau gan y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

QSIC 15/02/2023/4.3.1	Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Strategol
	<p>Cyflwynodd RBW y Cofrestrau Risgiau Strategol a Chorfforaethol sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.</p> <p>Gan gyfeirio at Risg Strategol 1, roedd TC wedi hysbysu RBW bod ei hasesiad o Risg 1 yn aros yr un fath ag yr oedd yn y diweddariad a roddwyd i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022 a'i bod yn parhau i gael ei rheoli fel rhan o ddatblygiad strategaeth tymor hwy y Sefydliad.</p> <p>Gan gyfeirio at Risg Strategol 2, dywedodd AJ fod yr asesiad risg yn parhau'n sefydlog, gyda ffocws parhaus ar wella a thrawsnewid.</p> <p>Wrth gyfeirio at y Risgiau Corfforaethol, dywedodd AJ wrth y Pwyllgor nad oedd y risgiau gwreiddiol wedi newid. Roedd risg newydd (303) wedi'i chynnwys yn y Gofrestr. Cafodd hon ei huwchgyfeirio o Risg Cyfarwyddiaeth i Risg Gorfforaethol.</p> <p>Rhoddodd RH ddiweddariad cynhwysfawr i'r Pwyllgor ar Risg Gorfforaethol 208, sy'n ymwneud â heriau sy'n wynebu darparu gwasanaethau heintiau clinigol yng Ngogledd Cymru, a oedd yn cynnwys anawsterau mewn perthynas ag adnoddau staffio meddygol a dibyniaeth ar ddefnyddio staff meddygol asiantaeth i lenwi swyddi gwag. Aeth RH ymlaen i amlinellu'r gwahanol ddulliau a ystyriwyd i ddiwallu anghenion y gwasanaeth.</p> <p>Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Yr effaith ar waith y clinigwyr yng Ngogledd Cymru, o ystyried y defnydd hirdymor o staff asiantaeth. Sicrhaodd RH y Pwyllgor na fu unrhyw effaith amlwg, ac at hynny roedd un aelod o staff asiantaeth a gyflogwyd wedi cael ei gyflogi'n barhaus gan y Sefydliad ers pum mlynedd ac yn rhan sefydlog o'r tîm;• Cynnydd ar y trafodaethau gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ynghylch swyddi hyfforddiant meddygol. Parhaodd y drafodaeth ynghylch y posibilrwydd o gydweithio ag Ysgol Feddygol Prifysgol Lerpwl, nodwyd bod trafodaethau wedi'u cynnal yn flaenorol ynghylch heriau tebyg yn ymwneud â chapasiti, a nodwyd y gallai arwain at goli ffocws ar gadw staff yng Nghymru. Gofynnodd y Cadeirydd i'r mater hwn gael ei groesgyfeirio i'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl pan fydd yn ystyried materion cynllunio'r gweithlu a llywodraethu clinigol; <p>Camau Gweithredu: LB</p> <ul style="list-style-type: none">• Y posibilrwydd o ddatblygu gwasanaeth clefydau heintus arbenigol newydd a fyddai'n denu ymgynghorwyr i'r ardal, efallai mewn cydweithrediad ag Ysgol Feddygol Prifysgol Bangor sydd newydd ei sefydlu. Nodwyd y byddai angen cyllid ychwanegol ar gyfer y dull hwn a bod angen trafodaethau pellach. Nododd RH ac AJ y drafodaeth

Mae'r rhain yn gofnodion heb eu cadarnhau o'r cyfarfod.

Sylwch fod y rhain yn amodol ar gael eu cadarnhau gan y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

barhaus gydag Ysgol Feddygol Bangor ynglŷn â chyfleoedd i lunio cwricwlwm newydd o 2024 ymlaen.

Diolchodd y Pwyllgor i RH am ei ddiweddariad cynhwysfawr ar risg 208.

Hysbysodd RBW y Pwyllgor am Risg Gorfforaethol newydd yn ymwneud â meddalwedd LIMS, gan nodi y byddai ar gael i'w hystyried yn y fersiwn nesaf o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Nododd y Pwyllgor y byddai'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd yn ystyried Sesiwn Graffu Fanwl ar Gydraddoldeb yn ei gyfarfod nesaf, a fyddai'n cynnwys cyfeiriad at Wasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru. Awgrymodd KE y dylai DC gwrdd â Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd i sicrhau bod unrhyw wersi perthnasol a ddysgwyd yn cael eu hystyried yn y dyfodol yn y Pwyllgor hwn.

Camau Gweithredu: DC

Ystyriodd y Pwyllgor y Gofrestr Risgiau Strategol a Chorfforaethol a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor a **chafodd sicrwydd** bod risgiau Strategol a Chorfforaethol y sefydliad yn cael eu rheoli'n briodol.

QSIC 15/02/2023/4.4

Gweithio i Wella C3 gan gynnwys Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol.

Cyflwynodd FT adroddiad Chwarter 3 Gweithio i Wella, gan dynnu sylw at y ffaith nad oedd unrhyw Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol, a bod tri digwyddiad Dim Syndod, o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio. Sicrhodd FT y Pwyllgor fod ymchwiliadau llawn wedi'u cynnal ym mhob achos. Darparodd FT hefyd drosolwg o'r cwynion a'r ganmoliaeth a dderbyniwyd.

Aeth FT ymlaen i gyflwyno'r Dangosfwrdd Ansawdd i'r Pwyllgor, a oedd yn cynnwys digwyddiadau; categorïau ac is-gategorïau o ddigwyddiadau; a chwynion (ffurfiol ac anffurfiol) ar gyfer chwarter 3, 2022-23.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor i ystyriaeth bellach gael ei rhoi i naratif ar gyfer cyd-destun lle roedd y niferoedd yn fach. Cytunodd FT i dynnu sylw'r tîm datblygu at hynny i'w ystyried ymhellach.

Diolchodd y Pwyllgor i FT am ei chyflwyniad a chafodd **sicrwydd** bod Gweithio i Wella yn cael ei reoli'n effeithiol.

QSIC 15/02/2023/4.5

Rheoli Dyfeisiau Meddygol

Rhoddodd AJ ddiweddariad ar y trefniadau ar gyfer Rheoli Dyfeisiau Meddygol, gan nodi bod y Grŵp Rheoli Dyfeisiau Meddygol wedi parhau â'r

Mae'r rhain yn gofnodion heb eu cadarnhau o'r cyfarfod.

Sylwch fod y rhain yn amodol ar gael eu cadarnhau gan y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

gwaith o drosglwyddo cyfrifoldeb i Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol, ac ar y cynnydd i ddiweddarau'r polisi a'r weithdrefn bresennol. Ychwanegodd SS fanylion pellach at y diweddariad, gan hysbysu'r Pwyllgor am drefniadau i sicrhau bod proses gywir, gyfredol a chadarn ar waith ar gyfer Rheoli Dyfeisiau Meddygol ar draws y Sefydliad.

Aeth y Pwyllgor ati i:

- Fyfyrio ar yr hyfforddiant a'r adnoddau sydd ar gael i staff, gan nodi bod unigolion perthnasol wedi'u nodi ac yn cael hyfforddiant i gyflawni eu rôl yn effeithiol
- Nodwyd yr arbenigedd traws-sefydliadol yn y maes hwn a'r cydweithio â Grŵp Dyfeisiau Meddygol Cymru Gyfan i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau ac ymgynghoriadau'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, a bod y Sefydliad (ynghyd â holl Sefydliadau GIG Cymru) yn cyfrannu at broses i ddatblygu deddfwriaeth newydd y DU yn dilyn y Cyfnod Pontio o'r UE.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y cynnydd i egluro'r trefniadau ar gyfer rheoli Dyfeisiau Meddygol a nodwyd y blaenoriaethau a'r cynllun gwaith uniongyrchol arfaethedig.

QSIC 15/02/2023/4.6

Adroddiad Blynyddol Cynllunio ar gyfer Argyfwng Iechyd 2022

Cyflwynodd AJ Adroddiad Blynyddol Cynllunio ar gyfer Argyfwng Iechyd i'r Pwyllgor, gan nodi'r gwaith a wnaed i sicrhau bod lefel parodrwydd y Sefydliad ar gyfer argyfwng yn parhau'n uchel.

Diolchodd y Pwyllgor i AJ am gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol Cynllunio ar gyfer Argyfwng Iechyd, gan nodi y byddai'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Yna cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** mewn perthynas â chydymffurfiaeth y sefydliad â gofynion y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl [2004] a Chanllawiau Craidd Cynllunio at Argyfyngau GIG Cymru [2015], a pharodrwydd y Sefydliad i ymateb i argyfwng.

QSIC 15/02/2023/4.7

Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Ch.3

Cyflwynodd CO yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 3, gan amlygu tri adroddiad RIDDOR yn ystod Chwarter 3, 2022-23, ac un yn ystod mis Ionawr 2023. Aeth ymlaen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymweliad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch â'r Gwasanaeth Microbioleg yng Nghaerdydd ar 17 Ionawr 2023.

Mae'r rhain yn gofnodion heb eu cadarnhau o'r cyfarfod.
Sylwch fod y rhain yn amodol ar gael eu cadarnhau gan y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

<p>Dywedodd CO fod Archwiliad Mewnol o Iechyd a Diogelwch wedi arwain at sicrwydd rhesymol. Aethpwyd i'r afael â'r tri chanfyddiad a adroddwyd a gweithredwyd arnynt.</p> <p>Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd ar gyfer gwella.</p>	
QSIC 15/02/2023/5	Eitemau i'w Cymeradwyo
QSIC 15/02/2023/5.1	Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r Cyfarfod
<p>Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod;</p> <p>Cymeradwyodd y Pwyllgor y penderfyniad i gau'r tri cham gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnod o Gamau Gweithredu.</p>	
QSIC 15/02/2023/5.2	5.2 Polisiâu a Gweithdrefnau Cymeradwyo
<p>Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol a:</p> <ul style="list-style-type: none">• chymeradwyodd y Polisi Rhybuddion, Hysbysiadau Diogelwch a Chanllawiau Eraill;• mabwysiadodd y Polisi Cymru Gyfan ar gyfer Cydsynio i Archwiliad a Thriniaeth.	
QSIC 15/02/2023/6	Eitemau i'w Nodi
QSIC 15/02/2023/6.1	Adroddiad ar Rybuddion (Chwarter 3)
<p>Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Rhybuddion a Hysbysiadau Diogelwch ar gyfer Ch3, 22-23.</p>	
QSIC 15/02/2023/7	Materion Gweinyddol i Gloi
QSIC 15/02/2023/7.1	Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus
<p>Gofynnwyd i'r aelodau e-bostio LB gydag unrhyw adborth ar gyfarfod y Pwyllgor. Atgoffodd KE yr Aelodau hefyd am y Cyfarfod Effeithiolrwydd Pwyllgorau a fydd yn cael ei gynnal ar 1 Mawrth 2023.</p> <p>Dyddiad y cyfarfod nesaf: 16 Mai 2023.</p> <p>Caeodd KE ei Chyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella terfynol fel Cadeirydd drwy ddiolch i bawb am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd. Cadarnhaodd mai Diane Crone fyddai Cadeirydd y Pwyllgor o 1 Ebrill 2023 ymlaen.</p> <p>Diolchodd JW i KE am ei gwaith a'i chefnogaeth i'r Pwyllgor a'r Sefydliad. Ateggodd aelodau'r Pwyllgor eu diolch a'u dymuniadau gorau i KE.</p>	
<p><i>Daeth y sesiwn agored i ben am 13:10</i></p>	